# Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

**Awdur:** Robert John Jones, Rheolwr Cludiant Addysg

**Dyddiad:** 28/08/2026

**Fersiwn:** Fersiwn 4 - Awst 2026

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. **Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)
- Polisi Cludiant Addysg

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Yn sgil sefyllfa gyllidol cludiant addysg, mae'r maes yn destun adolygiad strategol, a chredir o ailedrych ar gynnwys y Polisi Cludiant presennol, bod cyfle i gyfrannu rhywfaint at resymoli'r costau ynghlwm a chludiant addysg ynghyd â chwrdd â gofynion statudol.

Credir bod angen diweddaru a diwygio'r Polisi Cludiant presennol am y rhesymau canlynol:

- Lluniwyd y polisi cludiant presennol yn 2009 ac nid yw wedi ei ddiweddaru ers hynny ar wahân i'r rhan am addysg ol-16, a hynny yn dilyn ail-strwythuro a diddymu'r ffioedd a oedd yn bodoli ar y pryd.

- Mae amwysedd ac aneglurder y polisi presennol mewn mannau'n gwanhau gallu'r Adran Addysg i wneud penderfyniadau cadarn bob amser am ddilysrwydd ceisiadau am gludiant, sy'n arwain at gostau cludiant uwch i'r Cyngor.

- Byddai ychwanegu eglurder i'r Polisi Cludiant Addysg o gymorth i rieni a defnyddwyr wybod i sicrwydd a ydynt yn gymwys i gludiant addysg ai peidio, a'r rhesymeg pam cyn mynd ati i gyflwyno cais, gan leihau'r galw ar y gwasanaeth i ymateb i geisiadau sy'n annilys.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad:

- Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes. Gwnaed ymdrech gadarn a chymesur i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu, ac mae digon o wybodaeth berthnasol wedi'i chasglu i alluogi'r Cyngor i symud ymlaen.

Cynhaliwyd holiadur ymgynghori ar y Polisi Cludiant Drafft, a rennir yn eang gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector addysg, gan gynnwys plant a phobl ifanc, cyrff llywodraethu, a grwpiau cynllunio strategol. Derbyniwyd 31 ymateb, gan ddarparu mewnbwn ansoddol gwerthfawr gan randdeiliaid.

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud.**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| **Cwynion ac ymholiadau** | Medi 2024-Medi 2025 | Yn dilyn craffu manwl ar ymholiadau a chwynion yn ymwneud yn benodol â chludiant addysg, daw'n amlwg fod ein polisi cludiant presennol yn wan o ran cynnig arweiniad a'r manylder berthnasol wrth ymdrin a'r materion yma. |
| **Ymgynghori gyda'r Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig** | Chwefror 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| **Ymgynghori gyda'r Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd** | Chwefror 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| **Cyfarfod ymgysylltu gyda Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd** | Chwefror 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| **Cyfarfod ymgysylltu gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sirol** | Mawrth 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| **5 x sesiwn ymgynghori gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai – yn safleoedd, Llangefni, Bangor, Pwllheli, Dolgellau, Glynllifon** | Mawrth 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus |
| **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** | 18 Mehefin 2026 | Cyflwyno Polisi Drafft |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Mae gan yr Adran Addysg, yr uned gludiant integredig a holl ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol, sydd yn ymestyn allan i'r trefniadau cludiant i'r ysgol ac adref ar gyfer yr ysgol benodol honno. Ni ragwelir felly y byddai'r polisi cludiant arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd yma. | Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma |
| **Anabledd** | Yn deillio o sylwadau'r ymgynghorai, deuir i'r casgliad fod rhai pryderon am effaith y polisi cludiant drafft newydd ar ddysgwyr anabl neu anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig o safbwynt diogelwch, addasrwydd a mynediad teg at addysg. Nododd ymatebwyr nad yw pob dysgwr yn gallu teithio'n annibynnol, ac y gall rhoi pwysau ar bobl ifanc i wneud hynny cyn eu bod yn barod. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai ag anghenion cymhleth neu gyflyrau penodol, lle gall teithio heb gymorth priodol greu rhwystrau uniongyrchol i fynediad ac ymgysylltiad ag addysg.<br><br>Yn ehangach, mae'r sylwadau'n nodi bod anghenion dysgwyr anabl yn amrywiol iawn, ac felly bod dull | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos rhywfaint o gydnabyddiaeth o effeithiau cadarnhaol posibl i ddysgwyr anabl neu anghenion ychwanegol, yn enwedig o ran hyrwyddo annibyniaeth a datblygiad personol. Nodir gan rai ymatebwyr fod teithio annibynnol, pan gaiff ei weithredu'n briodol, yn gallu adeiladu hyder a sgiliau bywyd ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn cael eu gweld yn amodol ar ddarpariaeth briodol o hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau, gan bwysleisio nad yw annibyniaeth yn briodol nac yn bosibl i bob unigolyn.<br><br>Er hynny, mae rhai sylwadau'n tynnu sylw at risgiau negyddol ar sail anabledd. Mynegir pryder y gallai'r polisi roi pwysau |

| | | |
|---|---|---|
| | safonol o ddarparu cludiant yn debygol o fod yn annigonol ac yn arwain at ganlyniadau annheg. Codir pryderon hefyd y gallai newidiadau i'r polisi neu brosesau asesu arwain at leihau neu dynnu gwasanaethau cludiant arbenigol, gan effeithio'n anghymesur ar y grŵp hwn o'i gymharu â dysgwyr eraill. At hynny, mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r dysgwr unigol, gyda sylwadau'n tynnu sylw at bwysau ychwanegol ar deuluoedd wrth geisio sicrhau cludiant addas.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod risg glir o effaith negyddol ar sail anabledd oni bai bod y ddarpariaeth yn parhau'n hyblyg, wedi'i theilwra ac yn darparu cefnogaeth ddigonol er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais o dan Ddeddf Cydraddoldeb. | ar ddysgwyr ag ADY i deithio'n annibynnol cyn eu bod yn barod, gan greu risg uniongyrchol i'w diogelwch a'u lles.<br><br>Mae'r sylwadau'n dangos bod unrhyw leihad mewn cefnogaeth neu hyblygrwydd yn debygol o gael effaith anghymesur ar ddysgwyr anabl o gymharu â'u cyfoedion. |
| **Rhyw** | Ni ragwelir y byddai'r polisi cludiant arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. | Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma |
| **Oedran** | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos yn gyson bod y polisi arfaethedig yn cael ei ystyried fel un a allai effeithio'n anghymesur ar wahanol grwpiau oedran, yn unol â nodwedd warchodedig "oedran" o fewn Deddf Cydraddoldeb. Yn benodol, mynegir pryder bod dysgwyr hŷn, yn enwedig y rhai ôl-16 a thros 19 oed, yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau o ran mynediad at addysg, gan gynnwys llai o ddewis cyrsiau, | Mae effaith negyddol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr 19 oed a hŷn sydd ar hyn o bryd yn manteisio ar y Tocyn Teithio Ôl-16. Mae bwriad i ymgynghori ar y newid hwn a byddwn yn ystyried yr adborth a dderbynnir o'r ymgynghoriad, yn addasu a newid y Polisi drafft fel y gwelir orau, cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu'n derfynol.<br><br>Mae'r sylwadau yn awgrymu ystod o effeithiau posibl ar sail oedran, gyda rhai elfennau cadarnhaol ond yn bennaf |

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaeth ar y darparwr agosaf yn unig, a theithiau hirach neu fwy cymhleth, a allai effeithio'n negyddol ar bresenoldeb, ymgysylltiad a dilyniant addysgol.<br><br>Ar yr un pryd, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at wendidau posibl i blant iau, sy'n cael eu hystyried yn fwy dibynnol ar drefniadau cludiant diogel ac addas, ac yn llai abl i deithio'n annibynnol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu lle mae llwybrau'n anniogel. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch risgiau diogelwch a hygyrchedd, ac yn awgrymu y gallai dull sy'n seiliedig ar bellter neu feini prawf safonol fod yn anaddas i anghenion plant ifanc.<br><br>Yn ehangach, mae'r dystiolaeth yn nodi diffyg hyblygrwydd yn y dull, gyda sawl sylw yn awgrymu bod polisi "un maint i bawb" yn methu cydnabod gwahaniaethau datblygiadol a gofynion ymarferol rhwng gwahanol gamau addysg. Mae hyn yn gallu arwain at anghysondebau rhwng dysgwyr o wahanol oedrannau – gan gynnwys o fewn yr un teulu – ac yn cynyddu'r risg o ganlyniadau annheg neu anfwriadol. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n awgrymu bod angen dull mwy graddol a hyblyg sy'n adlewyrchu anghenion penodol pob grŵp oedran er mwyn osgoi effaith anghymesur ac i fod yn gydnaws ag egwyddorion cydraddoldeb. | bryderon am effeithiau negyddol anghymesur ar wahanol grwpiau oedran. O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn nodi y gall trefniadau cludiant presennol neu hyblyg (e.e. seddi gwag) gefnogi datblygiad pobl ifanc drwy feithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb, yn ogystal â galluogi mynediad parhaus at addysg a chyfleoedd i deuluoedd weithio.<br><br>Yn yr un modd, gall darpariaeth sy'n defnyddio capasiti presennol yn effeithiol gynorthwyo dysgwyr sydd ychydig y tu allan i feini prawf cymhwysedd, gan ehangu mynediad i addysg i rai grwpiau oedran.<br><br>Mae dysgwyr hŷn (ôl-16 a thros 19) yn cael eu nodi fel grŵp mewn mwy o berygl o gael eu heithrio o gyfleoedd addysgol oherwydd cyfyngiadau ar gludiant, dibyniaeth ar y darparwr agosaf, neu ddiddymu cymorth, a allai gyfyngu ar ddewis cyrsiau, cynyddu teithiau cymhleth a lleihau presenoldeb a dilyniant. Ar yr un pryd, mae plant iau yn cael eu hystyried yn fwy agored i risgiau diogelwch ac yn fwy dibynnol ar drefniadau cludiant trefnus, gyda phryderon ynghylch addasrwydd cerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Crefydd a Chred** | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol.<br><br>Mae gan bob ysgol eu polisïau gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."<br><br>Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos bod mynediad at ysgolion ffydd yn fater allweddol o safbwynt crefydd a chred, gyda nifer o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd gallu teuluoedd i ddewis addysg sy'n adlewyrchu eu credoau crefyddol. Nodir yn glir bod nifer cyfyngedig o ysgolion ffydd ar gael yn lleol, ac felly bod angen teithio pellteroedd mwy mewn llawer o achosion; o ganlyniad, gallai unrhyw gyfyngiadau ar gludiant neu feini prawf pellter olygu bod rhai dysgwyr yn methu mynychu'r ysgol ffydd agosaf neu fwyaf addas iddynt. Mae hyn yn codi pryder y gallai'r polisi roi dysgwyr crefyddol dan anfantais | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchu cymysgedd o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail crefydd a chred. O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn cydnabod y gall darpariaeth cludiant sy'n cefnogi teithio i ysgolion ffydd hwyluso hawl teuluoedd i ddewis addysg sy'n adlewyrchu eu credoau crefyddol, yn enwedig lle nad oes llawer o ysgolion ffydd ar gael yn lleol. Yn yr ystyr hwn, gall trefniadau sy'n galluogi teithio pellach, neu sy'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, helpu i gynnal mynediad at addysg grefyddol a chefnogi amrywiaeth o ddewisiadau addysgol.<br><br>Fodd bynnag, mae'r sylwadau hefyd yn tynnu sylw at risgiau negyddol posibl. Mynegir pryder y gallai cyfyngiadau pellter neu gymhwysedd atal rhai dysgwyr rhag mynychu ysgol ffydd briodol, gan eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â dysgwyr eraill.<br><br>Ar yr un pryd, mae safbwyntiau cryf yn pwysleisio na ddylai crefydd roi mantais nac anfantais, a bod angen trin pob dysgwr yn gyson waeth beth yw eu credoau, gan godi pryder y gall darpariaeth arbennig ar gyfer ysgolion ffydd beri anghydraddoldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| | anfwriadol o gymharu â'r rhai sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn seiliedig ar ffydd.<br><br>Ar yr un pryd, mae llinyn cryf arall o sylwadau'n pwysleisio'r angen am degwch a chysondeb, gyda rhai ymatebwyr yn nodi na ddylai crefydd roi mantais nac anfantais i unrhyw garfan o ddysgwyr, ac y dylai'r polisi drin pob disgybl yn gyfartal waeth beth yw eu cefndir crefyddol. Mae hyn yn amlygu tensiwn clir rhwng cefnogi hawl unigolion i ddewis addysg ar sail cred, a chynnal egwyddorion cydraddoldeb ar draws y system gyfan.<br><br>Mae'r sylwadau'n dangos bod angen cydbwysedd gofalus er mwyn sicrhau nad yw unrhyw grŵp crefyddol yn cael ei drin yn fwy ffafriol nac yn llai ffafriol, fel bod mynediad at addysg yn parhau'n deg ac yn gynhwysol i bob dysgwr, yn unol ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae | Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma |

| | | |
|---|---|---|
| | dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r polisi ar ei newydd wedd yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. | |
| **Ail-bennu rhywedd** | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."<br><br>Ni ragwelir y byddai'r polisi ar ei newydd wedd yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywiol. | Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos nad yw effaith ar sail priodas a phartneriaeth sifil yn cael ei chodi'n uniongyrchol, ond bod nifer o faterion ehangach yn berthnasol yn anuniongyrchol drwy drefniadau teuluol a chyfrifoldebau gofal. Yn benodol, mae ymatebwyr yn tynnu sylw at yr effaith y gall trefniadau cludiant ei chael ar allu rhieni i gydlynu gwaith a gofal plant, gyda rhai sylwadau'n awgrymu y gallai newidiadau i ddarpariaeth greu pwysau ychwanegol ar un rhiant neu bartner i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn . Gall hyn effeithio ar drefniadau o fewn perthnasoedd priodasol neu bartneriaeth sifil, yn enwedig lle mae'r ddau bartner yn gweithio. | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau anuniongyrchol iawn at effaith ar sail priodas a phartneriaethau sifil, ac nid oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n trafod y nodwedd warchodedig hon yn benodol.<br><br>O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae sylwadau'n awgrymu y gall darpariaeth cludiant effeithiol helpu teuluoedd i gydlynu gwaith a gofal plant, gan gefnogi sefydlogrwydd trefniadau dyddiol ac, o bosibl, lleihau pwysau ar berthnasau teuluol.<br><br>Fodd bynnag, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at effeithiau negyddol posibl, yn enwedig lle mae trefniadau cludiant yn llai hyblyg neu'n cael eu lleihau. Gall hyn greu straen ychwanegol ar rieni. Mae pryderon hefyd ynghylch trefniadau byw cymhleth, megis rhannu gofal rhwng dau gartref, sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn gyffredinol, er nad yw'r effaith ar briodas a phartneriaethau sifil yn amlwg nac yn benodol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod risg o effeithiau anuniongyrchol lle gall newidiadau i'r polisi gynyddu pwysau ar drefniadau teuluol neu greu anghydbwysedd mewn cyfrifoldebau rhwng partneriaid, gan bwysleisio'r angen am hyblygrwydd er mwyn osgoi canlyniadau annheg. | gallu cael eu gwneud yn anoddach gan feini prawf llym neu ddiffyg hyblygrwydd yn y polisi.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw effaith ar sail priodas a phartneriaethau sifil yn uniongyrchol amlwg. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys cyfeiriadau anuniongyrchol at effaith ar sail beichiogrwydd a mamolaeth. | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod rhai effeithiau cadarnhaol posibl ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, yn bennaf lle mae darpariaeth cludiant addas ac hyblyg yn galluogi rhieni – gan gynnwys mamau – i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal. Nodir bod mynediad dibynadwy at gludiant yn gallu lleihau'r angen am drefniadau gofal ychwanegol, cefnogi parhad mewn cyflogaeth, a hwyluso trefniadau dyddiol teuluol, gan gynnwys ar gyfer plant ifanc.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod effaith y polisi ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn debygol o fod yn anuniongyrchol, gydag elfen gadarnhaol pan fo darpariaeth yn cefnogi teuluoedd, ond risg glir o effeithiau negyddol lle mae hyblygrwydd neu ddarpariaeth yn cael ei lleihau. |
| **Iaith Gymraeg** | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod effaith y polisi ar y Gymraeg yn gymysg, ond yn codi rhai pryderon o safbwynt cydraddoldeb ieithyddol. Mae nifer o ymatebwyr yn nodi nad yw cludiant | Mae'r Polisi hwn yn cefnogi mynediad teg at addysg ledled Gwynedd, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Gan fod pob ysgol yn y sir, ac eithrio tri, yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, mae'r trefniadau cludiant yn chwarae rhan |

| | | |
|---|---|---|
| | ynddo'i hun o reidrwydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddefnydd iaith, gan awgrymu effaith gyfyngedig mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae eraill yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai trefniadau cludiant, yn enwedig lle mae'r polisi yn cyfyngu mynediad i'r darparwr agosaf yn unig, effeithio ar allu dysgwyr i gyrchu addysg Gymraeg neu ddwyieithog briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle nad yw darpariaeth Gymraeg ar gael yn lleol, gan olygu bod teithio pellach yn angenrheidiol.<br><br>Yn ehangach, mae'r sylwadau'n amlygu y gall diffyg hyblygrwydd yn y polisi arwain at sefyllfa lle nad yw dewisiadau iaith yn cael eu hystyried ochr yn ochr â pellter, gan arwain at bosibilrwydd o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn ymarfer. Ar yr un pryd, mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod sicrhau mynediad cyfartal i bob dysgwr, beth bynnag fo'u hiaith, yn golygu na ddylai'r polisi wahaniaethu ar sail iaith o gwbl.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos gwahaniaeth barn rhwng dull niwtral o ran iaith a'r angen i sicrhau bod darpariaeth cludiant yn galluogi, yn hytrach na chyfyngu, mynediad at addysg Gymraeg, gan bwysleisio'r angen i osgoi unrhyw effaith negyddol a allai danseilio egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. | allweddol wrth sicrhau bod dysgwyr ledled Gwynedd yn gallu mynychu eu hysgol ddalgylch a chael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol. O ganlyniad, mae'r Polisi yn cyfrannu at amcanion y Cyngor i gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith addysg a chymuned.<br><br>Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod effaith y polisi ar y Gymraeg yn cael ei weld yn gymysg, gyda rhai ymatebwyr yn nodi effaith gyfyngedig neu ddim effaith uniongyrchol, tra bod eraill yn tynnu sylw at botensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol.<br><br>O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae rhai sylwadau'n awgrymu y gall trefniadau cludiant effeithiol sy'n cynnal mynediad at ystod eang o ysgolion helpu i gynnal dewis addysgol, gan gynnwys mynediad at ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog lle bo hynny'n berthnasol. Mae hefyd awgrymiadau y gall hyblygrwydd yn y polisi, megis ystyried dewisiadau addysg yn ogystal â lleoliad daearyddol, helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Fodd bynnag, mae nifer o sylwadau'n tynnu sylw at risgiau negyddol posibl, yn enwedig os yw'r polisi'n cyfyngu mynediad i ysgolion neu ddarparwyr nad ydynt y rhai agosaf yn unig. Nodir y gallai dull o'r fath gyfyngu ar allu dysgwyr i fynychu darpariaeth Gymraeg benodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r ddarpariaeth yn wasgaredig, gan arwain at sefyllfa lle gallai'r Gymraeg gael ei hanfanteision anfwriadol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ar yr un pryd, mae rhai ymatebwyr yn nodi nad yw cludiant ei hun yn ffactor sy'n effeithio ar ddefnydd iaith, gan awgrymu nad yw'r effaith yn negyddol ym mhob achos.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos ansicrwydd a safbwyntiau cymysg, ond mae'n tynnu sylw at risg y gallai diffyg hyblygrwydd mewn trefniadau cludiant arwain at effaith anghymesur ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y polisi'n cefnogi mynediad teg at ddarpariaeth Gymraeg ac nad yw'n peryglu trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb ieithyddol. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Fel awdurdod ac ar nodyn bositif iawn, darperir cludiant rhad ac am ddim i fyfyrwyr addysg bellach fynychu cyrsiau addysg amrywiol yn ein ysgolion chweched dosbarth a sawl campws coleg – nid yw hyn yn statudol ac mae'n gweithredu ar ddisgresiwn y cyngor. Yn yr hinsawdd ariannol, mae hyn yn gostus i'r awdurdod ond ar y llaw arall yn hybu mynediad i bob dysgwr fedru astudio mewn addysg bellach, heb fod yn gost i'r dysgwyr a'i rhieni/warchodwyr.<br><br>Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos yn glir bod effaith bosibl ar sail ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, gyda phryderon bod y polisi'n gallu effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel neu'r rhai heb fynediad at drafnidiaeth breifat. Mynegir yn benodol y gallai lleihad mewn darpariaeth cludiant neu gyfyngu cymhwysedd arwain at gostau ychwanegol i rieni, gan greu rhwystrau i fynediad at addysg i ddysgwyr nad ydynt mewn sefyllfa i hunan-ariannu teithio . Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos cymysgedd o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar y naill law, mae rhai ymatebwyr yn cydnabod bod trefniadau cludiant hygyrch ac opsiynau fel defnyddio seddi gwag yn gallu cefnogi teuluoedd drwy leihau costau a galluogi rhieni i barhau mewn gwaith, gan wella sefydlogrwydd economaidd a mynediad parhaus i addysg. Gall hyn, mewn rhai achosion, gyfrannu at well cyfleoedd i ddysgwyr nad oes ganddynt adnoddau i drefnu cludiant annibynnol.<br><br>Mynegir pryder y gallai lleihau darpariaeth cludiant neu gyfyngu cymhwysedd arwain at gostau ychwanegol, gan greu rhwystrau uniongyrchol i fynediad at addysg i rai dysgwyr . Mae hyn yn amlwg mewn ardaloedd gwledig lle mae dewisiadau cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig, a gallai arwain |

| | | |
|---|---|---|
| | ardaloedd gwledig lle mae opsiynau cludiant cyhoeddus cyfyngedig, gan olygu bod rhai teuluoedd yn dibynnu'n helaeth ar drefniadau cludiant addysg.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu risg o effaith negyddol anghymesur ar grwpiau economaidd -gymdeithasol difreintiedig, oni bai bod y polisi'n cynnwys digon o hyblygrwydd a chymorth i liniaru'r rhwystrau hyn ac i sicrhau mynediad teg at addysg. | at deithiau mwy cymhleth, llai o bresenoldeb neu hyd yn oed dynnu dysgwyr allan o rai cyfleoedd addysgol.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai risgiau o effeithiau negyddol ar deuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, er bod rhai manteision posibl lle mae darpariaeth yn hyblyg ac yn hygyrch.<br><br>Mae'r polisi drafft newydd yn cynnwys mesurau lliniaru a hyblygrwydd er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr o gefndiroedd llai breintiedig yn cael eu rhoi dan anfantais, ac i gynnal mynediad teg at addysg i bob plentyn . |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Ni ragwelir y byddai'r polisi arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd a'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol neu goleg mae nhw'n mynychu.<br><br>Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau anuniongyrchol iawn at effaith ar bobl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, ac nid oes tystiolaeth benodol neu uniongyrchol yn enwi'r grŵp hwn. Fodd bynnag, mae nifer o sylwadau yn codi materion ehangach sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau, yn enwedig o ran symudedd, trefniadau byw cymhleth a dibyniaeth ar gludiant hyblyg. Er enghraifft, mae pryderon am deuluoedd sy'n rhannu cyfeiriadau neu sydd â phatrymau byw anghyson, a allai arwain at anawsterau gyda meini prawf llym fel "prif gyfeiriad", yn dangos bod polisi llai hyblyg yn gallu creu rhwystrau i sicrhau mynediad cyson at addysg . | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anuniongyrchol at effaith ar bobl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, ond gellir tynnu rhai casgliadau ehangach yn seiliedig ar bryderon amgylchiadau teuluol a symudedd.<br><br>O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae sylwadau'n awgrymu y gall darpariaeth cludiant hyblyg a hygyrch gefnogi teuluoedd sydd â phatrymau bywyd cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n symud yn aml neu sydd â threfniadau byw amrywiol, drwy gynorthwyo mynediad cyson at addysg a lleihau'r baich trefnu cludiant. Gall hyn fod yn berthnasol i deuluoedd milwrol lle mae sefydlogrwydd addysg yn ffactor pwysig.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y polisi'n ddigon hyblyg i osgoi creu rhwystrau anfwriadol i grwpiau â phatrymau byw anghonfensiynol, yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn ehangach, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod unrhyw leihad mewn hyblygrwydd neu ddarpariaeth cludiant yn debygol o effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sydd â sefyllfaoedd byw llai sefydlog neu fwy cymhleth, a all gynnwys rhai teuluoedd milwrol. | |
| **Hawliau Dynol** | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu nifer o faterion sy'n berthnasol i hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad teg at addysg, diogelwch, a hawl i fywyd teuluol. Mae ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrraedd addysg yn ddiogel ac yn ddibynadwy, gan nodi pryderon ynghylch teithio ar gludiant cyhoeddus, llwybrau anniogel, a'r effaith ar les corfforol ac emosiynol . Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â hawliau sylfaenol i ddiogelwch a mynediad at addysg heb rwystrau diangen. | Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu ystod o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at addysg, diogelwch a bywyd teuluol.<br><br>O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn nodi bod darpariaeth cludiant effeithiol ac hyblyg yn gallu cefnogi hawl dysgwyr i gyrchu addysg yn gyson ac yn ddiogel, tra hefyd yn galluogi teuluoedd i gynnal trefniadau gwaith a gofal plant, gan leihau pwysau ymarferol ar rieni . Gall hyn gyfrannu at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg mewn modd sefydlog, sy'n elfen graidd o hawliau dynol.<br><br>Fodd bynnag, mae'r sylwadau'n tynnu sylw'n gryf at effeithiau negyddol posibl, yn enwedig os yw'r polisi yn arwain at lai o fynediad at gludiant addysg. |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Yn dilyn arweiniad y Cabinet, rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad:

- Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai

- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i gasglu data a gwybodaeth bellach ar gyfer cynnwys y Polisi Cludiant Addysg ynghyd â'r Asesiad Effaith.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Ni ragwelir y bydd effaith gronnus o gyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy asesu'r effaith bosibl ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y cynnig yn dilyn y gofynion statudol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal o fewn y sefydliadau a dilynir polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.

Wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad teg at addysg drwy ddarparu trefniadau cludiant sy'n gyson, yn dryloyw ac yn ystyried anghenion unigol, gan gynnwys dysgwyr anabl a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, mae'r meini prawf cymhwysedd a'r trefniadau gweithredu wedi'u llunio mewn ffordd sy'n deg ac yn seiliedig ar anghenion gwrthrychol, heb drin unrhyw grŵp yn llai ffafriol yn anghyfiawn.

Bydd y polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau nad yw'n arwain at effeithiau andwyol annisgwyl ar unrhyw grŵp gwarchodedig ac i nodi cyfleoedd pellach i hyrwyddo cydraddoldeb.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Bydd y polisi cludiant newydd a gynigir yn sicrhau y rhoddir cyfleoedd i bawb fynychu safleoedd addysg dalgylch/addas agosaf. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn trywydd addysg o'u dewis hwythau, gan ddilyn cwrs o'r amrediad o bynciau a gynigir ar draws holl safleoedd addysg y sir, a safle sydd yn diwallu holl anghenion y dysgwyr. Darperir cludiant addas, trefnus a chyda chysylltiadau arbennig i'r perwyl hwn.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae Polisi Iaith presennol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor bod y Gymraeg yn iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg. O ran addysg, mae'r polisi'n pwysleisio rôl ganolog ysgolion a darparwyr addysg wrth drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf ac atgyfnerthu ei defnydd fel prif iaith dysgu a chymunedol.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y polisi yn cwrdd â'r gofynion isod: Mae'r Polisi Cludiant yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Ddeddf mewn sawl ffordd:

- **Cymru lewyrchus** – Rhoddir cyfleoedd drwy mynediad i addysg i feithrin a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Mae mynediad dibynadwy at addysg yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

- **Cymru gydnerth** – Trwy eu hastudiaethau daw dysgwyr yn ymwybodol o werthoedd sydd yn cynnal cydnerth gymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid. Gall defnydd o gludiant mwy cynaliadwy gyfrannu at leihau allyriadau a diogelu'r amgylchedd.
- **Cymru iachach** – Bod yn ran o gymdeithas sydd yn hybi llesiant corfforol a cheisio adlewyrchu ar hunaniaeth bositif, sy'n gysylltiedig â chryfhau iechyd meddwl. Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol. Mae mynediad rheolaidd at addysg yn cefnogi llesiant meddyliol a chorfforol dysgwyr. Gall trefniadau teithio diogel hefyd hyrwyddo iechyd a diogelwch.
- **Cymru fwy cyfartal** – Mae darparu mynediad at addysg gynhwysfawr i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir yn ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial. Dyma un o'r cyfraniadau mwyaf uniongyrchol gan y polisi.
- **Cymru o gymunedau** – Rhoddir cyfleoedd i gysylltu pobl a chymunedau trwy ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth hyfyw a diogel. Mae gwasanaethau cludiant dibynadwy yn helpu cysylltu cymunedau gwledig a threfol ag ysgolion.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yw un o'r prif ddulliau i wireddu'r nod hwn.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Mynediad at addysg yn hybu a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein dysgwyr gan obeithio fod hyn yn ymledu at lesiant byd-eang. Gall lleihau defnydd o geir unigol a hyrwyddo trafnidiaeth fwy cynaliadwy gyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'r polisi cludiant addysg newydd yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gynllunio ar gyfer y tymor hir, atal anghydraddoldebau, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â chymunedau. Mae'n cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant, gyda chyfraniad arbennig o gryf at Gymru sy'n Fwy Cyfartal drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at addysg a'r cyfleoedd sy'n deillio ohoni.

**Y Pum Ffordd o Weithio:**

**1. Hirdymor**

- Mae'r polisi'n ystyried anghenion dysgwyr yn y dyfodol drwy greu trefniadau cludiant cynaliadwy ac effeithlon.
- Gall leihau dibyniaeth ar geir preifat a chefnogi nodau amgylcheddol tymor hir.

**2. Atal**

- Mae darparu cludiant addas yn helpu atal problemau megis absenoldeb, allgáu addysgol ac anghydraddoldebau mynediad at addysg.
- Gall hefyd leihau problemau traffig a llygredd o amgylch ysgolion.

**3. Integreiddio**

- Mae'r polisi'n cefnogi sawl amcan llesiant ar yr un pryd yn hytrach na chanolbwyntio ar un maes yn unig.

**4. Cydweithio**

- Datblygwyd y polisi drwy weithio gyda rhanddeiliaid megis ysgolion, rhieni, a dysgwyr.
- Mae cydweithio'n helpu sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion lleol.

**5. Cynnwys**

- Mae ymgysylltu â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau yn sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed.

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

### 12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu drwy brosesau tendr a chytundebau trydydd parti a weinyddir gan yr Uned Gludiant Integredig, Cyngor Gwynedd.

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

Bydd y dogfennaeth tendr yn rhai safonol Cyngor Gwynedd sydd yn nodi'r disgwyliadau o ran cydymffurfio â'r Ddylestwydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Rhoddir ystyriaeth i hyn wrth ymgysylltu ar y polisi drafft arfaethedig. Sicrheir fod pawb, gan gynnwys y dysgwyr, yn cael lleisio eu barn ar y cynnig arfaethedig.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ac nad yw'r asesiad effaith yn derfynol, rhagwelir y bydd y polisi yn debygol o gael effaith bositif ar yr nodweddion cydraddoldeb (gweler cwestiwn 5). Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Gall effeithiau negyddol amlygu wrth gyflwyno rhai newidiadau i'r polisi, yn enwedig wrth ddileu rhai agweddau a gynigir yn bresennol ac o ddisgresiwn y cyngor. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain wrth ymgysylltu ar y polisi drafft arfaethedig, ac wrth lunio'r polisi terfynol.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol bwriadol yn deillio o'r Polisi Cludiant Addysg drafft, er enghraifft:

- Bydd canllawiau llymach ar ddysgwyr sydd yn byw mewn cyfeiriadau deuol er mwyn rheoli costau yn well.
- Bydd disgwyl i ddysgwyr addysg bellach ddilyn cwrs o'u dewis hwythau yn eu coleg agosaf er mwyn hwyluso trefniadau cludiant addysg.
- Rhoddir rhagor o eglurder ac ystyriaethau i ddalgylchoedd ysgolion ffydd gan nad oes cyfeiriad atynt ar hyn o bryd yn y polisi gyfredol.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd. Byddwn yn gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Er mwyn dangos yn gliriach fod y polisi cludiant addysg yn rhoi sylw dyledus i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gellid ystyried nifer o fesurau ychwanegol sy'n cyfrannu at y tair elfen o'r Ddyletswydd Gyffredinol: hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, a meithrin perthnasau da. Byddai'r camau hyn yn cryfhau'r polisi drwy sicrhau nid yn unig bod mynediad at gludiant addysg yn deg, ond hefyd bod y gwasanaeth yn weithredol yn lleihau anghydraddoldebau, yn atal gwahaniaethu ac yn adeiladu perthnasau cadarnhaol rhwng dysgwyr a chymunedau. Byddai hyn yn darparu tystiolaeth gryfach fod y ddyletswydd gyffredinol o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i hystyried yn llawn. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Mae'r polisi wedi ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol ar ddysgwyr a theuluoedd. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rhagwelir na fydd y polisi diwygiedig yn effeithio ar statws yr Iaith Gymraeg.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi.

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r Polisi Drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Mehefin 2026 | Mehefin 2026 | Pennaeth Addysg |
| Cyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg i'r Cabinet | Medi 2026 | Medi 2026 | Pennaeth Addysg |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** |
|---|---|---|
| Adolygiad o'r Polisi | Blynyddol | Rheolwr Cludiant Addysg |